**<u>Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 19 o Rhagfyr 2017 yn y Sefydliad Coffa, Llanrug.</u>**

**<u>Presennol</u>:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Meryl Green (Is-gadeirydd), Rhys Parry, Avril Jones, Cemlyn Jones, Meirwen Lloyd, Goronwy Hughes, Haf Williams, Richard Robinson, Phil Roberts, Clifford Williams, Llywelyn Williams**.**

**<u>Ymddiheuriadau:</u>** Y Cynghorwyr Martin Jones, Alan Pritchard

**<u>Hefyd yn Bresennol:</u>** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd)

**<u>Clerc:</u>** Meirion Jones

**81. Croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso gan y Cadeirydd i bawb am droi allan i'r cyfarfod a hithau môr agos i'r Nadolig

**82. Derbyn ymddiheuriadau.**

**Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod**

**83. Datgan buddiant personol.**

Y rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**84. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Tachwedd 2017**

Cadarnhawyd cofnodion mis Tachwedd yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan Y Cadeirydd

**85. Materion yn codi o'r cofnodion.**

Eitem 68 (Eitem 50) – Adroddwyd fod y sefyllfa parthed y llain o dir gerbron un bedd yn y fynwent oedd yn cael ei dorri yn cael ei fonitro a bydd cysylltiad yn cael ei wneud eto gyda'r teulu i ofyn am eu cydweithrediad.

Eitem 68 (Eitem 51) – Adroddwyd fod y coed Nadolig wedi eu gosod yn Llanrug a Cwm y Glo. Nodwyd byddai yn syniad cael cyfarfod gyda pawb sydd ynghlwm a'r broses o osod y coed Nadolig nesaf i sicrhau fod pawb yn ymwybodol o'r amserlen.

Eitem 68 (Eitem 52)

Adroddwyd fod yr holiadur bellach wedi ei gwblhau ac yn barod i'w gylchredeg. Bydd yn cael ei ddosbarthu i'r ysgol yn gyntaf ac yna i dai Cwm y Glo yn ogystal ac ar wefan y Cyngor. Ar ôl ei gwblhau dylid cael ei ddychwelyd i fodurdy Cwm

y Glo, Menter Fachwen, i aelod o'r Cyngor Cymuned neu drwy e-bost at clerc@llanrug.cymru

Eitem 69 (Polisi Iaith) – Adroddwyd fod yn Cyngor yn ei gyfarfod fid Tachwedd wedi cymeradwyo rhan o'r polisi a bwriedir cymeradwyo'r gweddill yng nghyfarfod Ionawr.

Eitem 72 (materion trafnidiaeth ger Stad Glan Moelyn a Stad yr Hen Ysgol

Nodwyd y dylid cysylltu a'r heddlu a gofyn am bresenoldeb Heddlu Cymunedol yn yr ardal ac i addysgu'r plant o beryglon croesi'r ffordd.

**86. I dderbyn sylwadau ar lwybrau cyhoeddus**

Adroddwyd fod difrod ar lwybr lawr o Bwlch i Allt Goch Cwm y Glo.

**Penderfynwyd:** Cysylltu a'r contractwr a gofyn iddo fynd i glirio'r llwybr

**87. I dderbyn sylwadau ar faterion y Fynwent.**

Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa o'r bedd sydd gyda glaswellt wedi ei dorri ac fod pridd yn y golwg.

` **Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a parhau i fonitro'r sefyllfa ac i gysylltu a'r teulu.

**88. I ail ystyried dyfynbris a dderbyniwyd ar gyfer gwneud gwaith cynnal a chadw ar barc sglefrio Cwm y Glo, yn unol a'r hyn a adnabyddir ar yr asesiad risg.**

Nodwyd fod ail bris wedi dod i law am wneud gwaith angenrheidiol ar Barc Sglefrio Cwm y Glo.

**Penderfynwyd:** Derbyn y pris cyntaf oherwydd ei fod yn rhatach ac awdurdodi'r Clerc gysylltu a'r contractwr i wneud y gwaith.

**89. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug.**

Adroddwyd nad oedd cynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol wedi gallu mynd i'r cyfarfod a bydd yn gobeithio mynd i'r cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**90. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd .**

**Nodwyd fod y Cynghorydd Berwyn Parry Jones wedi cynnig rhoi adroddiad misol i'r Cyngor yn nodi datblygiadau / gweithgareddau sydd**

**yn cymryd lle yng Nghyngor Gwynedd ar ei waith a phethau all effeithio ar Cwm y Glo. Bydd hyn yn eitem misol ar agenda'r Cyngor o hyn ymlaen.**

Adroddodd ar Bwyllgorau mae'n aelod ohonynt tu fewn i'r Cyngor;

- Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
- Pwyllgor Craffu Cymunedau – gyfrifol am Stadau, Priffyrdd, Ail-gylchu, gwastraff a Chynllunio a.y.b.
- Pwyllgor Cynllunio – Pwysig cael ymateb gan y Cynghorau Cymuned, gymaint o wybodaeth a phosib
- Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cŷd hefo Ynys Môn
- Panel Polisi Cynllunio ar y Cŷd hefo Ynys Môn

Tu allan i'r Cyngor

- Aelod o Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd
- Aelod o Fwrdd Llywodraethu Ysgol Cwm y Glo
- Aelod o Fwrdd Llywodraethu Ysgol Brynrefail

Dros y chwe mis diwethaf y pethau sydd yn digwydd yn y Cyngor

- Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn – gynhennus, pasiwyd ar pleidlais bwrw y Cadeirydd.
- Cwmni Preifat wedi ei greu i redeg y Canolfannau Hamdden
- Ymgynghoriad ar y Gwasanaeth Ieuenctid – cau dydd Gwener 22ain. Tri opsiwn
    - Cadw 10 Clwb Ieuenctid yn agored a lleihau cyfraniad at ffermwyr ifanc a'r Urdd
    - Cadw 14 Clwb Ieuenctid yn agored a diddymu cyfraniadau
    - Cau pob Clwb, a cael 8 swyddog llawn amser a dod a digwyddiadau i bob ardal am 10wythnos yn y flwyddyn

- Dweud eich dweud ar Cynllun y Cyngor 2018 – 2023 – hwnnw yn agored rwan
- Arbedion – wedi ei canfod am flwyddyn nesaf, y gwaith o ffeindio mwy at y dyfodol yn cychwyn yn y flwyddyn newydd. Codiad cyflog yn fwy nag oedd y Cyngor wedi rhagweld, trio gweld os oes arian ar gael gan y Llywodraeth.
- Cwmni Kingdom – ffeiniau i bobol sydd yn taflu sbwriel, a baw ci hefyd.

Tu allan i'r Cyngor

- Llifogydd – Dol Afon – wedi cael cyfarfod hefo CCG a'r Cyngor ar wahân – trefnu cyfarfod yn Ionawr ar y cyd. Y Cyngor wedi cytuno rhoi cais am grant, i wella'r sefyllfa
- Llifogydd – Cwm y Glo – cyfarfod un o'r trigolion – wedi adrodd yn ôl i'r Cyngor

- Llifogydd ar y lôn tu allan i Pant Afon, gobeithio cael draen o'r ffordd i'r nant gerllaw
- Ceisio cael y Cyngor i uwchraddio y llwybr troed o Cwm i Llanrug i fod yn lwybr aml-bwrpas, gyda goleuadau hefyd, ac os yn bosib dod a'r cyfyngiad cyflymder i lawr o 50 i 40.
- Hefyd dwi wedi gofyn am lwybr aml-bwrpas o Pontrug i fyny i Llanrug,
    - Wedi bod allan hefo'r swyddogion ar y ddau gynllun yma, ac maent wedi cytuno i ddarparu cynlluniau rhag ofn i grantiau ddod ar gael.
- Gweithio hefo chi y Cyngor Cymuned gymerwyd drosodd y parciau chware
    - Eisiau bod yn wyliadwrus peipiau dwr, o dan y ddau, awgrymu eich bod yn gofyn am warrant yn erbyn costau rhag ofn
    - Alan a fi fel Llywodraethwyr wedi bod yn cyfarfod y Cyngor ysgol yn Cwm, am ei syniadau i wella y Parc yn gwaelod Allt Goch.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn a diolch am yr adroddiad.
b) Yn sgil y wybodaeth am ddarparwyd am y gwasanaeth Ieuenctid Y Clerc i gwblhau'r holiadur ar lein cyn yr 22ain o Rhagfyr ac fod llythyr yn cael ei anfon at Gyngor Gwynedd i gefnogi cadw Clwb Ieuenctid Llanrug ar agor ac fod Cyngor Cymuned Llanrug yn ffafrio opsiwn 2

**91. I benderfynu ar ddyddiad ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgorau Cyllid, Hamdden a'r Fynwent.**

Nodwyd fod angen cyfarfod o'r uchod ar gyfer rhoi sylw i unrhyw waith byddai'r Cyngor angen ei wneud yn y flwyddyn 2018 / 2019 oherwydd fod angen penu'r praeseptu yng nghyfarfod Ionawr.

**Penderfynwyd:** Pwyllgorau Hamdden a'r Fynwent i gyfarfod am 18:30 ar y 10fed o Ionawr yn y Sefydliad Coffa a'r Pwyllgor Cyllid i gyfarfod yr un noson am 19:00 eto yn y Sefydliad Coffa.

**92. Cais Cynllunio**

**Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C17/1162/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Llys Derwen, Llanrug, Caernarfon, LL554RD

**Dyddiad Cofrestru:** 27-Tach-2017

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Addasu cybiau cŵn presennol i 2 uned wyliau

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad ond i sicrhau fod amodau Dŵr Cymru yn cael eu cadw atynt

**93. I dderbyn adroddiad gan y Cadeirydd ar gyfarfod rhyngddo a Phil Hughes o fudiad 'Backup'**

Adroddwyd fod y Cadeirydd a'r Cynghorydd Clifford Williams wedi cyfarfod a Phil Hughes o elusen Backup. Elusen ydi Backup sydd yn darparu cyfleon i bobl ifanc sydd mewn cadair olwyn oherwydd eu bod wedi cael anaf i'r cefn i fynd a nhw ar weithgareddau e.e. i fyny 'r Wyddfa. Eglurodd eu bod wedi cael cyswllt a Backup yn sgil y gofyn am fynediad i gadair olwyn i gaeau chwarae'r Cyngor. Adroddwyd ymhellach fod y Cyngor wedi ei ganmol ar ystyried anghenion pobl mewn cadair olwyn ac fod y ddarpariaeth yn Cae chwarae Glan Moelyn yn ddigonol. Yn sgil cae chwarae nant y Glyn, byddai angen gwneud tipyn bach o waith fel llwybr i gadair olwyn.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth ac i nodi yr hyn sydd ei angen fel gellir ei brisio.

**94. I dderbyn adroddiad ar y sefyllfa ddiweddara parthed Biniau Halen.**

Adroddwyd fod y Cyngor Cymuned wedi cymryd drosodd y cyfrifoldeb gan Gyngor Gwynedd o lenwi'r biniau halen. Roedd hyn yn deillio o weithgaredd brys bu'n rhaid i'w ymgymryd yn dilyn ceisiadau gan drigolion am halen yn y biniau. Nodwyd fod cyllideb wedi ei ddarparu ar gyfer hyn.

O ran yswiriant, nodwyd fod angen eu archwilio yn wythnosol gan naill ai aelod neu'r Clerc ac fod cofnod yn cael ei wneud o'r archwiliad. Yn unol ag argymhelliad y cwmni yswiriant, dylid rhoi sticer ar y biniau halen yn dweud pwy i gysylltu pan mae angen ei ail lenwi. Bydd y Clerc wedyn yn cysylltu a Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt fynd i'w ail lenwi.

**95. I apwyntio archwilwyr mewnol ar gyfer 2017 / 2018**

Adroddwyd fod y Clerc wedi cysylltu a tri o fudiadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth yma.

**Penderfynwyd:** Awdurdodi'r Clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd i'w apwyntio fel archwilwyr mewnol y Cyngor.

**96. Ceir yn gyrru ar Ffordd yr Orsaf, Llanrug**

Adroddwyd fod yna broblem o geir yn gyrru ar hyd Ffordd yr Orsaf ac ei fod yn berygl i gerddwyr.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a Chyngor Gwynedd a gofyn i rhywun ddod i fonitro'r sefyllfa tua 5:00 yh.